

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Festri Bethlehem, Talybont
ar nos Iau 14 Medi, 2017 am 1900**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Myfanwy Jones

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Dafydd Jones

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Margaret Fernley a Wyn Bowen Harris.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13
Gorffennaf 2017.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Sedd yn Corbri - adroddwyd bod y sedd wedi cael ei ail-osod ac yn edrych yn wych.

Siwins ac eogiaid – yn dilyn cyfarfod gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Gwynedd, adroddodd y Cyng. Evan Jones eu bod am adeiladu ramp cerrig er mwyn galluogi'r pysgod nofio yn ôl fyny'r afon. Bydd angen cael cadarnhad bod y gwaith wedi ei wneud. Y Cyng. Dafydd Jones am wneud ymholiadau.

Arriva– Y Cyng. Megan Tomos a Margaret Fernley wedi cyfarfod gyda'r Rheolwr Dafydd Williams yn Arriva, Bangor i gael sgwrs am diddymu gwasanaeth bws rhif 66 heb ymgynghori gyda'r gymuned, ac i ailadrodd siom trigolion y dyffryn.

Palmant Tan y Lôn at 'Gypsy Corner' - trafodwyd nad oedd y gwaith cynnal wedi ei wneud ar y palmant gan Gyngor Gwynedd yn ddigonol. Mae'r clawdd wedi cael ei dorri yn ôl, ond ddim digon. Hefyd, mae'r mwsogl ar y palmant yn risg iechyd a diogelwch, gan bod unigolyn wedi llithro arno diwrnod o'r blaen.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Parry & Co – cyfrifydd

£330.00

6. Gohebiaeth

Cyflwynwyd-e-bost gan Llywodraeth Cymru-Adran Economi a'r Seilwaith-manylion am gefnffordd Gaer i Bangor (A55) gwelliant Abergwyngregyn i Tai'r Meibion). Angen anfon unrhyw sylwadau cyn gynted a phosib. Trafodwyd bod angen sicrhau trefniadau pendant ar gyfer dar-gyfeirio trafndiaeth pan fydd gwaith yn cael ei wneud ar sribed canolig y ffordd.

Cyflwynwyd- e-bost gan Un Llais Cymru ynglŷn a aelodaeth. Penderfynwyd nad oedd ymaelodi yn berthnasol i'r Cyngor.

Cyflwynwyd- ymgynghoriad ar y Bil Awstisiaeth (Cymru) arfaethedig. Penderfynwyd bydd y Cyngor. Megan Tomos a Jên Morris yn darllen y dogfennau ac yn anfon unrhyw sylwadau.

Cyflwynwyd- e-bost gan Gyngor Gwynedd ynglŷn a arddangosfa Gorchmynion Drafft gwaith yr A55 Abergwyngregyn i Tai'r Meibion yng Nghaffi'r Hen Felin 28.09.17. Penderfynwyd bydd pawb sy'n gallu yn mynd.

Cyflwynwyd- copi o lythyr gan Archddiacon Bangor yn ymateb i ohebiaeth gan Sian Gwenllian ynglŷn a mynwent Eglwys Llanllechid. Penderfynwyd bydd cynrychiolaeth o'r Cyngor yn cyfarfod gyda'r Archddiacon a'r Parch. John Matthews yn y fynwent dydd Sul 17 Medi 2017 i drafod ein pryderon.

7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Sêl wŷn –y Cyng. Megan Tomos a Margaret Fernley wedi mynychu'r sêl ar ran y Cyngor.

8.Penderfyniadau Cynllunio:

NP3/21/LB61A

Tan y Garth Bach, Gerlan – caniatâd Adeilad Rhestredig am newidiadau i osod system gwres canolog nwy LPG.

Penderfyniad – Caniatawyd, gydag amodau

Ceisiadau Cynllunio:

Dim ceisiadau i'w ystyried.

9. Materion Brys

Eglwys Llan– y llwybr cyhoeddus ger yr eglwys wedi dirywio. Y llwch chwarel oedd wedi ei ddefnyddio i lenwi'r twll i gyd yn yr afon yn dilyn glaw dros y bythefnos diwethaf, ac mae'r concriid wedi dechrau torri. Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd.

Tal y Bont- Swyddogion Cyngor Gwynedd a trigolion Tal y Bont wedi bod o gwmpas yn edrych ar gyflwr draeni'r ardal. Y Clerc i holi pryd mae'r gwaith am gael i'w wneud.

Y Mynydd- ffi y porwyr-cais wedi ei dderbyn am eglurhad o beth yw'r ffi pan fydd y llythyrau yn cael eu anfon at y porwyr eleni.